

# Gofynion Safonol Monitro Busnes Sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru

Nod y ddogfen hon yw amlinellu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn ystod pob blwyddyn er mwyn cael gwybodaeth am sut y gweithreda eich sefydliad a sut y perfformia.

Bydd rhai o'r pwyntiau a ddisgrifir isod yn sbarduno taliadau refeniw a llunnir y gofynion ar gyfer pob taliad yn unigol a chytunir arnynt yn flynyddol gyda phob Sefydliad.

Bydd yr ymadwaith rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a phob Sefydliad yn parhau drwy'r flwyddyn. Ond wedi ei amlinellu isod, mae'r gofynion monitro safonol ar gyfer Sefydliadau. Gellid ychwanegu gofynion ychwanegol gan Swyddogion fel yr ystyriant yn briodol gan Gyngor Celfyddydau Cymru neu'ch Cytundeb Ariannu. Nodir unrhyw amodau neu ofynion ychwanegol a chytunir arnynt yn rhan o'r Cytundeb Ariannu neu ar unrhyw adeg o'r flwyddyn gan ddibynnu ar amgylchiadau.

Dylid anfon pob gwybodaeth electronig drwy e-bost at [Monitro.SR@cyngorcelfyddydaucymru.org.uk](mailto:Monitro.SR@cyngorcelfyddydaucymru.org.uk)

## 1. Cytundeb Ariannu Wedi Ei Lofnodi

I'w gyflwyno i Gyngor Celfyddydau Cymru erbyn 31 Mawrth er mwyn cael y taliad cyntaf yn Ebrill.

## 2. Derbyniad Dyfarniad Wedi Ei Lofnodi

I'w gyflwyno i Gyngor Celfyddydau Cymru erbyn 31 Mawrth er mwyn cael y taliad cyntaf yn Ebrill.

## 3. Cyfrifon Rheoli Chwarterol (erbyn diwedd y mis yn dilyn diwedd y chwarter)

**Cyfrifon Rheoli** i'w cyflwyno'n chwarterol gan ddilyn y meini prawf isod:

Yn y cyd-destun hwn, **diffinnir cyfrifon rheoli** fel a ganlyn:



## Amserlen i'w derbyn:

Ar gyfer sefydliadau gyda diweddau i'r flwyddyn ym Mawrth/Mehefin/Medi/Rhagfyr:

Cyfrifon Rheoli at:	I'w derbyn erbyn	Sbarduno pa daliad
31 Rhagfyr	31 Ionawr	yn gynnar yn Ebrill ( <b>Taliad 1</b> )
31 Mawrth	30 Ebrill	yn gynnar yng Ngorffennaf ( <b>Taliad 2</b> )
30 Mehefin	31 Gorffennaf	yn gynnar yn Hydref ( <b>Taliad 3</b> )
30 Medi	31 Hydref	yn gynnar yn Ionawr ( <b>Taliad 4</b> )

Os nad oes gan eich sefydliad ddiwedd blwyddyn ym Mawrth/Mehefin/Medi/Rhagfyr yna y dyddiad cau ar gyfer derbyn fydd diwedd y chwarter i sbarduno'r taliad Grant dilynol. (Cynhwysir dyddiadau go iawn ar gyfer eich sefydliad yn yr amserlen taliad).

## 4. Cyfrifon Blynyddol Wedi Eu Ffeilio neu'r Cyfateb (yn ôl dyddiadau cau ffeilio safon Tŷ'r Cwmnïau)

Os yw'ch sefydliad wedi ei gofrestru â Thŷ'r Cwmnïau neu'n Elusen Gofrestredig yna bydd eich cyfrifon terfynol wedi eu llofnodi (fel y'u ffeilir gyda'r Comisiwn Elusennau a/neu Dŷ'r Cwmnïau) i'w derbyn gan y Tîm Ariannu'r Celfyddydau dan yr amserlen ddilynol gan ddibynnu ar eich diwedd blwyddyn:

Diwedd y Flwyddyn	I'w derbyn erbyn diwedd y canlynol	Amod ar gyfer pa daliad
Mawrth	Ionawr	yn gynnar yn Ebrill ( <b>Taliad 1</b> )
Ebrill	Chwefror	yn gynnar yn Ebrill ( <b>Taliad 1</b> )
Mai	Mawrth	yn gynnar yn Ebrill ( <b>Taliad 1</b> )
Mehefin	Ebrill	yn gynnar yng Ngorffennaf ( <b>Taliad 2</b> )
Gorffennaf	Mai	yn gynnar yng Ngorffennaf ( <b>Taliad 2</b> )
Awst	Mehefin	yn gynnar yng Ngorffennaf ( <b>Taliad 2</b> )
Medi	Gorffennaf	yn gynnar yn Hydref ( <b>Taliad 3</b> )
Hydref	Awst	yn gynnar yn Hydref ( <b>Taliad 3</b> )
Tachwedd	Medi	yn gynnar yn Hydref ( <b>Taliad 3</b> )
Rhagfyr	Hydref	yn gynnar yn Ionawr ( <b>Taliad 4</b> )
Ionawr	Tachwedd	yn gynnar yn Ionawr ( <b>Taliad 4</b> )
Chwefror	Rhagfyr	yn gynnar yn Ionawr ( <b>Taliad 4</b> )

Os nad yw'ch sefydliad yn gwmni cofrestredig neu'n elusen (er enghraifft, os yw'n Awdurdod Lleol/Prifysgol/wedi ei berchenogi neu wedi ei reoli gan y BBC), yna dylech gyflwyno eich cyfrifon **cymeradwy**, terfynol diwedd y flwyddyn ar gyfer eich adran benodol (nid cyfrifon ar gyfer yr Awdurdod Lleol/Prifysgol/BBC llawn) yn dilyn yr un amserlen uchod.

## 5. Cyllidebau Blynyddol

### Cyflwyno Cyllidebau ar gyfer y Flwyddyn Ddilynol

Yn yr amgylchiadau hyn, *cyfeiria 'Cyllidebau'* at y wybodaeth ganlynol:

- Dadansoddiad fis-wrth-fis (gan gynnwys cyfanswm i'r flwyddyn) o'r incwm a'r gwariant disgwylid eich sefydliad.
- Dylai hyn gynnwys yr hollt cyfyngedig/anghyfyngedig os yw'n briodol.
- Cyfanswm cyfredol o warged/diffyg y flwyddyn A chronfeydd wrth gefn cronol (ar gyfer cyfyngedig ac anghyfyngedig) bob mis.
- Dylai hefyd gynnwys y balansau a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol.
- Dylai'r cyllidebau hyn gynnwys cymhariaeth â'r rhagolygon diwedd blwyddyn diweddaraf ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn y golofn gyntaf.
- Dylai fod ganddynt yr un penawdau Incwm a Gwariant fel sydd yn y cyfrifon rheoli.

Dylid esbonio unrhyw newidiadau sylweddol o'r blynyddoedd a fu

Dyma'r amserlen dderbyn:

<b>Cyllidebau am ddiwedd y flwyddyn ddilynol hyd:</b>	<b>I'w derbyn erbyn diwedd y blaenorol</b>	<b>Amod ar gyfer pa daliad</b>
Ionawr	Rhagfyr	<b>yn gynnar yn Ebrill (Taliad 1)</b>
Chwefror	Ionawr	<b>yn gynnar yn Ebrill (Taliad 1)</b>
Mawrth	Chwefror	<b>yn gynnar yn Ebrill (Taliad 1)</b>
Ebrill	Mawrth	<b>yn gynnar yng Ngorffennaf (Taliad 2)</b>
Mai	Ebrill	<b>yn gynnar yng Ngorffennaf (Taliad 2)</b>
Mehefin	Mai	<b>yn gynnar yng Ngorffennaf (Taliad 2)</b>
Gorffennaf	Mehefin	<b>yn gynnar yn Hydref (Taliad 3)</b>
Awst	Gorffennaf	<b>yn gynnar yn Hydref (Taliad 3)</b>
Medi	Awst	<b>yn gynnar yn Hydref (Taliad 3)</b>
Hydref	Medi	<b>yn gynnar yn Ionawr (Taliad 4)</b>
Tachwedd	Hydref	<b>yn gynnar yn Ionawr (Taliad 4)</b>
Rhagfyr	Tachwedd	<b>yn gynnar yn Ionawr (Taliad 4)</b>

## 6. Cyfarfodydd Bwrdd

Dylech roi gwybod i'r Swyddog Arweiniol am bob Cyfarfod Bwrdd a'i wahodd iddynt a dylai'r Swyddog fynychu o leiaf un cyfarfod Bwrdd yn ystod blwyddyn ariannol y sefydliad. Cynhwysir yr amodau hyn yng Nghytundeb Ariannu eich sefydliad.

Dylid cylchredeg Dogfennau Bwrdd i'r Swyddog Arweiniol o leiaf bum diwrnod cyn y cyfarfod.

Dylid rhoi'r un wybodaeth ariannol i'r Bwrdd ag y rhoddir i Gyngor Celfyddydau Cymru.

## 7. Ymwneud Staff Allweddol â Recriwtio

Dylai Swyddogion Arweiniol Cyngor Celfyddydau Cymru fod yn ymwneud â recriwtio'r holl staff allweddol mewn Sefydliadau o gamau llunio'r disgrifiad swydd hyd y cyfweiliad, neu ar lefel a ystyrir yn briodol i'r Swyddog Arweiniol (gan ddibynnu ar amgylchiadau).

## 8. Cynlluniau Busnes

Mae'n ofynnol i bob sefydliad adolygu a diweddarau eu Cynlluniau Busnes yn flynyddol. Bydd angen cyflwyno'r cynlluniau diwygiedig erbyn erbyn y dyddiad a nodir yn eich Cytundeb Ariannu bob blwyddyn a dylent fod ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r tair blynedd ariannol nesaf.

Dylent gynnwys cyllidebau lefel uchel (penawdau prif incwm a gwariant) gyda rhagor o fanylion ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol.

Ar adeg cyflwyno'r Cynlluniau Busnes, dylid cynnwys ac adolygu unrhyw bolisiâu diwygiedig.

## 9. Ffyrdd Gwahanol O Fynd Ati ar gyfer Amgylchiadau Gwahanol

Defnyddia Swyddogion Arweiniol yr amserlen dalu flynyddol Sefydliadau i fynd i'r afael ag unrhyw amgylchiadau sefydliadol a gallent ychwanegu amodau ychwanegol.

Gellir defnyddio'r ddogfen i reoli'r disgwyliadau eich sefydliad a Chyngor Celfyddydau Cymru.

## 10. Ffeilio Electronig

- Dechreuir cyflwyno ffeilio electronig i bob Sefydliad o Ebrill 2011 ymlaen.
- Dylai sefydliadau gyflwyno pob gwybodaeth yn electronig os yw'n bosibl (er gellid derbyn copiâu caled os nad yw'n bosibl a'ch bod wedi cytuno ar y trefniant hwn â'ch Swyddog Arweiniol).

Dylid anfon pob gwybodaeth electronig gysylltiedig â'r uchod drwy e-bost at [monitro.SR@cyngorcelfyddydaucymru.org.uk](mailto:monitro.SR@cyngorcelfyddydaucymru.org.uk)

**Dyddiad Adolygu: Hydref 2019**